Estyn



# **Adroddiad crynodeb i rieni a gofalwyr** ar Ysgol Gymraeg Nant Gwenlli

## Dyddiad yr arolygiad: Mehefin 2024

gan Estyn, Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

# Trosolwg

Mae Ysgol Gymraeg Nant Gwenlli, a sefydlwyd yn Medi 2021, yn gymuned ddysgu lwyddiannus sy’n dathlu Cymreictod, cwrteisi a pharch disgyblion yn arbennig o dda. Mae’r pennaeth gweithredol dros dro, gyda chefnogaeth y tîm arwain, yn darparu arweiniad clir a doeth ac yn parchu ymdrechion pawb sy’n cyfrannu at addysg gyflawn y disgyblion. Mae staff yn ymrwymo i sicrhau ansawdd uchel o ofal a lles disgyblion ar draws yr ysgol, mewn awyrgylch dysgu cartrefol a chefnogol. Mae hyn yn dylanwadu’n gryf ar agweddau’r disgyblion tuag at ei gilydd.

Mae staff yn arddel yr iaith Gymraeg yn gywir a brwdfrydig sy’n cael effaith gadarnhaol ar fedrau llafar y disgyblion o oedran ifanc. O ganlyniad, mae defnydd y disgyblion o’r Gymraeg a balchder ynddi yn nodwedd gref. Mae staff yn cydweithio’n llwyddiannus er mwyn cynllunio ystod o brofiadau dysgu a chwarae ysgogol i ddisgyblion. Mae’r cydweithio sy’n bodoli rhwng staff yr ysgol a staff ysgol gyfagos sy’n cael ei harwain gan y pennaeth gweithredol dros dro, a gyda staff ysgolion y clwstwr, yn dylanwadu’n gadarnhaol ar addysg disgyblion.

Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu gwybodaeth, dealltwriaeth a medrau sy’n briodol i’w mannau cychwyn a’u cam datblygu yn llwyddiannus. Er enghraifft, mae’r rhan fwyaf yn datblygu eu medrau llafar a darllen Cymraeg yn fedrus, gan gyfrannu’n bwrpasol mewn trafodaethau a mynegi eu barn yn glir ac aeddfed.

Mae athrawon yn darparu cyfleoedd bwriadus i ddisgyblion ddysgu’n annibynnol, sy’n cynnwys sesiynau gwerthfawr iddynt gydweithio â’i gilydd i ddatrys heriau a chwblhau prosiectau. Mae’r ddarpariaeth ar gyfer cefnogi medrau dysgu disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) yn fwriadus. O ganlyniad, maent yn gwneud cynnydd da dros amser yn erbyn eu targedau a’u cyflawniadau blaenorol. Yn yr arferion gorau, mae dulliau holi ac adborth llafar staff yn darparu cefnogaeth werthfawr i ddisgyblion wella’u dysgu. Er hyn, nid yw’r arferion effeithiol hyn yn gyson ar draws yr ysgol.

Mae trefniadau hunanwerthuso a sicrhau ansawdd yr ysgol yn drwyadl. Mae aelodau’r corff llywodraethol yn cefnogi’r pennaeth gweithredol dros dro a’r staff yn bwrpasol. Mae ganddynt ymwybyddiaeth gadarn o gryfderau’r ysgol ynghyd â’r blaenoriaethau ar gyfer gwella, gan ddarparu cydbwysedd priodol o gymorth a her.

# Argymhellion

**A1** **Sicrhau bod athrawon yn ymestyn dysgu'r disgyblion ymhellach drwy ddulliau holi ac adborth llafar effeithiol sy'n gyson ar draws yr ysgol**

## Beth sy'n digwydd nesaf

**Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.**



# Cyd-destun yr ysgol

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Gymraeg Nant Gwenlli |
| Awdurdod lleol | Cyngor Dinas Casnewydd |
| Iaith y darparwr | Cymraeg |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 18 |
| Nifer y disgyblion o oedran ysgol statudol | 5 |
| Nifer mewn dosbarthiadau meithrin (os yw'n berthnasol) | 5 |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector Cynradd yw 13.2%) | 0.0% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 0.0% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 0.0% |
| Dyddiad penodi'r pennaeth | 01/05/2021 |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 24/06/2024 |

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2024: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 27/08/2024

Sylwer, efallai na fydd y ffotograffau sy'n cael eu dangos yn rhai o'r ysgol sy'n destun yr adroddiad hwn.